

Llenyddiaeth Saesneg

20% Gwaith Cwrs – Siarad a Gwranddo
80% Arholiad – Darllen ac Ysgrifennu

Cymysgedd unigryw o amrywiaeth o sgiliau, ynghyd ag ystod heriol o fathau o destunau a'r cyfle i ddatblygu eich arddull ysgrifennu personol eich hun.

Mae dau bapur arholiad thematig yn cynnwys 5-6 o destunau a gwahanol fathau o gwestiynau. Byddwch yn dysgu sut i ymateb i wahanol fathau o destunau a dangos eich dealltwriaeth. Byddwch hefyd yn dysgu sut i gynllunio a golygu eich gwaith ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion. Bydd pob papur arholiad yn para dwyawr.

Mae cyfran gwaith cwrs y cwrs yn cynnwys dau asesiad siarad a gwranddo - un cyflwyniad ymchwil unigol ac un trafodaeth grŵp. Byddwch yn dysgu sut i siarad ac ymateb mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Byddant yn cael y cyfle i wella eu marciau siarad a gwranddo yn ystod y tymor hwn a byddant yn sefyll y ddau bapur yn yr haf.

Llenyddiaeth Saesneg

25% Gwaith Cwrs
75% Arholiad

Rhywbeth i bawb! O ddrama i blotiau stori sy'n gofyn cwestiynau gan bob darllenydd. Angen ymatebion personol sy'n edrych yn fanwl ac yn gyffredinol ar destunau.
Rydym yn astudio Of Mice and Men; Blood Brothers; Lord of the Flies a Macbeth.

Mae hwn yn gymhwyster a rennir yn unedau ac mae dwy haen mynediad: Sylfaen ac Uwch.

Uned arholiad yw Uned 1 a byddwch yn astudio un testun rhyddieithol o wahanol ddiwylliannau a hefyd barddoniaeth gyfoes ar gyfer y cwestiwn cymharu barddoniaeth.

Mae Uned 2 hefyd yn uned arholiad a byddwch yn astudio drama gyfoes ac un testun rhyddiaith treftadaeth lenyddol.

Uned 3 yw'r uned nad yw'n uned arholiad a byddwch yn astudio drama gan Shakespeare a barddoniaeth Gymreig.

Byddant yn gweithio ar eu hasesiad dan reolaeth llenyddiaeth a seiliwyd ar farddoniaeth a Macbeth.

Awgrymiadau ar gyfer astudio.

Darllenwch y testunau allweddol. Darllenwch unrhyw beth. Darllenwch, darllenwch, darllenwch!

Gwnewch eich holl waith cartref a pharatowch ar gyfer eich AP. Bydd y rhain yn cael eu marcio yn erbyn Amcanion Asesu a rhoddir targedau clir.

Mynychwch sesiynau cinio gyda'ch athro dosbarth am gymorth ychwanegol.
Ewch ati i ymarfer ysgrifennu mewn gwahanol arddulliau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion.